



Y Ganolfan
Dysgu Cymraeg
Genedlaethol —
National Centre
for Learning Welsh

Newyddion Dysgu Cymraeg Learn Welsh News

**Haf
Summer
2025**



Gair gan Dona Lewis,

Prif Weithredwr y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol

Wrth i'r flwyddyn academiaidd ddod i ben, rhaid dathlu datblygiadau'r cyfnod diwethaf, yn arbennig felly ein cyhoeddiad data diweddaraf, sy'n adrodd ar y nifer uchaf o ddysgwyr ers i'r Ganolfan gymryd cyfrifoldeb dros y sector Dysgu Cymraeg.

Cwblhaodd 18,330 o bobl ein cyrsiau yn 2023-2024, cynnydd o 45% o'i gymharu â'r niferoedd yn y cyhoeddiad cyntaf yn 2017-2018.

Dyma garreg filltir arwyddocaol yn ein taith i groesawu a chefnogi pobl o bob gefndir i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg, wrth i ni weithredu strategaeth a gwasanaethau

Dysgu Cymraeg cenedlaethol.

'Dyn ni'n falch iawn o bob un o'n dysgwyr, ac mae cynlluniau'r Ganolfan yn esblygu o hyd er mwyn croesawu mwy a mwy o bobl at y Gymraeg.

Ymhlith y cynlluniau hynny mae rhaglenni newydd sy'n croesawu pobl yn ôl at yr iaith, sy'n rhoi cyfleoedd i'r rheiny sydd wedi colli hyder i ail afael yn eu Cymraeg, a'i defnyddio gyda'r teulu, yn y gwaith, ac yn y gymuned.

Edrychwn ymlaen at barhau â'r holl weithgareddau cyffrous yma, a diolchwn i Lywodraeth Cymru a'n partneriaid am eu cefnogaeth, a'r cydweithio parod.

A word from Dona Lewis,

Chief Executive of the National Centre for Learning Welsh

As the academic year draws to a close, we're delighted to celebrate our most recent developments, in particular the latest data publication, which reports on the highest number of learners since the Centre took responsibility for the Learn Welsh sector.

The data shows that 18,330 individuals completed our courses in 2023-2024, an increase of 45% compared to the first data publication in 2017-2018.

This is a significant milestone in our journey to welcome and support people of all backgrounds to learn and use the Welsh language, as we deliver a national Learn Welsh strategy and services.

We're proud of all our learners, and the

Centre's work continues to evolve in order to welcome more and more people to the Welsh language.

Among our many learning programmes is the expansion of a scheme that welcomes people back to Welsh, giving those who've lost confidence in their Welsh the opportunity to strengthen their language skills, and use their Cymraeg with family, at work, and in the community.

We look forward to continuing this exciting work and thank the Welsh Government and our partners for their continued support and collaboration.



Mwy o bobl nag erioed yn dysgu Cymraeg

Mae data swyddogol diweddaraf y Ganolfan yn dangos bod 18,330 o unigolion yn dysgu Cymraeg – y nifer uchaf ers i'r Ganolfan gymryd cyfrifoldeb dros y maes yn 2016.

Yn ystod blwyddyn academiaidd 2023-2024, gwnaeth 18,330 o bobl gwblhau cyrsiau'r Ganolfan – cynnydd o 8% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, a chynnydd o 45% o gymharu â'r data swyddogol cyntaf a gyhoeddwyd gan y Ganolfan ar gyfer 2017-2018, sef 12,700.

Mae Mark Drakeford, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, wedi canmol y twf yma. Meddai: "Mae bwrllwm y sector Dysgu Cymraeg a'r twf yn y niferoedd sy'n dysgu'r iaith yn ysbrydoliaeth, ac yn destun balchder i ni gyd.

"Mae'r Gymraeg yn perthyn i bawb, ac mae'r Ganolfan yn gwneud cyfraniad hollbwysig wrth normaleiddio defnydd o'r iaith a chefnogi'r uchelgais i gynyddu'r niferoedd sy'n siarad, defnyddio a mwynhau'r Gymraeg."

Am fwy o wybodaeth am y data, dilynwch y ddolen nesaf: [Mwy o bobl nag erioed yn dysgu Cymraeg | Dysgu Cymraeg](#)

More people than ever are learning Welsh

According to the latest official data published by the National Centre for



Learning Welsh, 18,330 individuals are learning Welsh – the highest number of learners since the Centre took responsibility for the Learn Welsh sector in 2016.

During the 2023-2024 academic year, 18,330 people completed the Centre's courses – an increase of 8% compared to the previous year, and an increase of 45% compared to the first official data published by the Centre for the 2017-2018 academic year, 12,700.

Mark Drakeford, Cabinet Secretary for Finance and the Welsh Language, has praised this increase. He said: "The enthusiasm of the Learn Welsh sector and the increase in the number of people learning the language is an inspiration, and a source of pride for us all.

"Cymraeg belongs to us all, and the Centre makes an all-important contribution in terms of normalising the use of the language and supporting the ambition to increase the numbers who can speak, use and enjoy the Welsh language."

For more information about the data, follow the next link: [More people than ever are learning Welsh | Learn Welsh](#)



Mwy o bobl ifanc yn dysgu

Mae data 2023-2024 yn dangos bod mwy o bobl ifanc 16-24 oed yn dysgu Cymraeg. Cwblhaodd 2,635 o ddysgwyr ifanc gyrsiau'r Ganolfan yn 2023-2024, cynnydd o 21% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, a chynnydd o 274% o gymharu â'r cyhoeddiad oedran cyntaf yn 2018-2019.

Mae darpariaeth eang ar gyfer pobl ifanc, gan gynnwys cynlluniau ar gyfer myfyrwyr Addysg Bellach ac Addysg Uwch, a phrentisiaid. Mae partneriaethau â sefydliadau megis yr Urdd hefyd yn ein galluogi ni i gyrraedd cynulleidfaoedd iau.

I ddarllen mwy am wasanaethau'r Ganolfan ar gyfer pobl ifanc, dilynwch y ddolen nesaf: [Cymraeg i Bobl Ifanc | Dysgu Cymraeg](#)

More young people are learning Welsh

The data for 2023-2024 shows more young people aged 16-24 are learning Welsh. A total of 2,635 young learners completed the Centre's courses during 2023-2024, an increase of 21% compared to the previous year, and an increase of 274% compared to the first year of publication of age in 2018-2019.

A wide range of support is available for young people, including schemes for Further Education and Higher Education students, and apprentices. Partnerships with organisations such as the Urdd also enable us to reach younger audiences.

To read more about the Centre's services for young people, follow the next link: [Welsh for Young People | Learn Welsh](#)

Gweithlu Addysg

Mewn digwyddiad yn y Senedd ym mis Gorffennaf, cyhoeddodd y Ganolfan ei Rhaglen Dysgu Cymraeg ar gyfer y Gweithlu Addysg, yn barod ar gyfer y flwyddyn academiaidd nesaf.

Dyma'r tro cyntaf i raglen genedlaethol, gynhwysfawr gael ei datblygu ar gyfer y Gweithlu Addysg. Mae ystod o hyfforddiant ar gael, fydd yn ymgorffori cyrsiau dwys (saboethol), sy'n trosglwyddo i'r Ganolfan o fis Medi ymlaen.

Roedd y digwyddiad yn gyfle i dynnu sylw at y ddarpariaeth eang a'r

bartneriaeth rhwng Llywodraeth Cymru a'r Ganolfan. Trefnwyd sgwrs banel oedd yn edrych ar sut mae'r Ganolfan yn cefnogi ysgolion ac awdurdodau lleol.

Diolch yn fawr i'r panel, ac i'r siaradwyr, Mark Drakeford, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, a Lynne Neagle, Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, am eu cyfraniadau. Diolch hefyd i Cefin Campbell AS am noddi'r digwyddiad.

I ddarllen mwy am y rhaglen, dilynwch y ddolen nesaf: [Rhaglen Dysgu Cymraeg genedlaethol ar gyfer athrawon yn barod ar gyfer y flwyddyn academiaidd newydd | Dysgu Cymraeg](#)



Education Workforce

At an event at the Senedd in July, the National Centre unveiled its Learn Welsh Programme for the Education Workforce, in readiness for the new academic year.

This is the first time a comprehensive, national programme has been developed for the Education Workforce. A range of Welsh language training is available, including intensive courses (sabbatical), which transfer to the Centre from September onwards.

The event was an opportunity to

highlight the wide-ranging programme and the important partnership between the Welsh Government and the National Centre. A panel discussion looked at how the Centre supports schools and local authorities.

With thanks to the panel, and speakers, Mark Drakeford, Cabinet Secretary for Finance and Welsh language, and Lynne Neagle, Cabinet Secretary for Education, for their contributions. Thanks also go to Cefin Campbell MS for sponsoring the event.

Read more about the programme by following the link: [National Learn Welsh Programme for teachers announced for the new academic year | Learn Welsh](#)

Hyfforddiant i weithluoedd

Mae'r Ganolfan yn arwain rhaglen Dysgu Cymraeg genedlaethol ar gyfer gweithluoedd, gan ddarparu cyrsiau a chynlluniau ar gyfer cyflogwyr a sectorau amrywiol.

Hyd yma mae 2,000 o gyflogwyr a 30,000 o weithwyr wedi manteisio ar y rhaglen.

Mae'r sectorau yn cynnwys lechyd a Gofal, gan gefnogi meysydd blaenoriaeth Mwy na Geiriau, cynllun Llywodraeth Cymru i ddarparu gwasanaethau lechyd a Gofal yn y Gymraeg.

Mae tiwtor Dysgu Cymraeg yn gweithio ym mhob Bwrdd lechyd, ac mae'r Ganolfan yn cefnogi gweithluoedd arbenigol, gan gynnwys Niwrowahaniaeth, Gofal Demensia a Gweithwyr o Dramor.


Welsh language training for workforces

The Centre leads a national Learn Welsh programme for workforces, providing flexible, bespoke learning options for a range of employers and sectors.

To date, 2,000 employers and 30,000 employees have taken part in the programme.

Among the sectors are Health and Care, supporting the priority areas of the Welsh Government's 'More than just words' plan to provide services through the medium of Welsh.

A Learn Welsh tutor works in every Health Board, and the Centre supports specialist workforces, including Neurodivergence, Dementia Care and Workers from Overseas.



Blas ar y Gynhadledd Genedlaethol

Croesawodd y Ganolfan dros 150 o diwtoriaid a phartneriaid i'w Chynhadledd Flynyddol, yn ogystal â thri siaradwr gwadd:

The Centre's Annual Conference

The National Centre welcomed over 150 tutors and partners to its Annual Conference, as well as three guest speakers:



Mark Drakeford, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg

Pwysleisiodd Mark Drakeford bod croeso i bawb i siarad a mwynhau'r Gymraeg. Eglurodd bod cynnal y gwasanaeth i ddysgwyr yn flaenoriaeth i'r Llywodraeth, a bod sicrhau cefnogaeth sefydlog ac arbenigol ar gyfer dysgu'r Gymraeg yn hollbwysig.

Mark Drakeford, Cabinet Secretary for Finance and Welsh Language

Mark Drakeford emphasised that everyone is welcome to speak and enjoy the Welsh language. He explained that maintaining the service for learners is a priority for the Government, and emphasised the importance of ensuring stable, specialist support for learning Welsh.



Geraint Evans, Prif Weithredwr S4C

Eglurodd Geraint bod y berthynas â'r Ganolfan yn un allweddol bwysig i S4C, a chyfeiriodd at wasanaethau'r sianel ar gyfer dysgwyr. I ddarllen mwy am y gwasanaethau hynny, dilynwch y ddolen nesaf: [Dysgu Cymraeg | S4C](#)

Geraint Evans, Chief Executive of S4C

Geraint explained that S4C's partnership with the Centre is hugely important and referred to the range of services available for Welsh learners. To read more about these services, follow the next link: [Dysgu Cymraeg | S4C](#)

Mererid Wyn Williams, Cyfarwyddwr cynorthwyol - arolygu a gwasanaethau canolog Estyn

Rhoddodd Mererid drosolwg o waith Estyn, a chyflwynodd fframwaith arolygu newydd ar gyfer y sector Dysgu Cymraeg, sy'n cynnwys arolygiadau â thema.

Mererid Wyn Williams, Assistant director - inspection and central services

Mererid gave an overview of Estyn's work, and introduced a new inspection framework for the Learn Welsh sector, which includes themed inspections.

Deddf y Gymraeg ac Addysg

Mae'r Ganolfan yn cynllunio'n ieithyddol er mwyn denu a chefnogi cynulleidfaoedd amrywiol i ddysgu a mwynhau'r Gymraeg, gan gefnogi strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru.

Mae cyfnod cyffrous o'n blaenau wrth i waith y Ganolfan drosglwyddo i gorff statudol newydd, yr Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol, sy'n cael ei sefydlu yn 2027 er mwyn cefnogi gofynion Deddf y Gymraeg ac Addysg.

Bydd y gwasanaethau Dysgu Cymraeg cenedlaethol yn cael eu hymestyn i gyd-fynd â blaenoriaethau'r Ddeddf, gan ddarparu cyfleodd dysgu Cymraeg gydol oes.

Welsh Language and Education Act

The Centre undertakes linguistic planning in order to attract and support various audiences to learn and enjoy the Welsh language, supporting the Welsh Government's Cymraeg 2050 strategy.

An exciting period lies ahead as the Centre's work transfers to a new statutory body in 2027, the National Institute for Learning Welsh, in order to support the requirements of the Welsh Language and Education Act.

The national Learn Welsh services will be extended to align with the priorities set out in the Act, providing lifelong Welsh language training opportunities.



Cyrsiau newydd mis Medi

Bydd cyrsiau Dysgu Cymraeg newydd ar bob lefel yn dechrau ym mis Medi. Dilynwch y ddolen am ragor o wybodaeth: [Cyrsiau mis Medi | Dysgu Cymraeg](#)

Darllenwch am rai o'n dysgwyr a siaradwyr newydd trwy ddilyn y ddolen nesaf: [Newyddion | Dysgu Cymraeg](#)



September courses

New Learn Welsh courses will start in September. Follow the link for more information: [September courses | Learn Welsh](#)

Read about some of our learners and new speakers by following the next link: [News | Learn Welsh](#)



Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam 2025



Mae croeso i chi ymuno â ni ym Maes D, pentref dysgwyr yr Eisteddfod Genedlaethol, rhwng 2 a 9 Awst. E-bostiwch swyddfa@dysgucymraeg.cymru i drefnu sgwrs, a dilynwch ni ar [LinkedIn](#), [Facebook](#) ac [Instagram](#). Dyma ddolen i'n prif uchafbwyntiau yn ystod yr Eisteddfod: [Yr Eisteddfod Genedlaethol | Dysgu Cymraeg](#)

Wrexham National Eisteddfod 2025

You're welcome to join us in Maes D, the learners' village, at the Wrexham Eisteddfod between 2 and 9 August. E-mail swyddfa@dysgucymraeg.cymru to arrange a chat, and follow us on [LinkedIn](#), [Facebook](#) and [Instagram](#). Here's a link to our main highlights during the Eisteddfod: [The National Eisteddfod | Learn Welsh](#)

dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru



Dysgu
Learn